

Sgwennu Nofel

Marlyn Samuel

Ro'n i wastad eisiau sgwennu nofel ond do'n i ddim yn gwybod sut i fynd ati. Drama oedd y cyfrwng ro'n i wedi arfer ei sgwennu.

Doedd yna chwaith ddim llawer o'r math o nofelau ro'n i'n awyddus i'w sgwennu ar gael yn y Gymraeg yr adeg honno. Nofelau poblogaidd cyfoes fel *Gwrach y Gwyllt* gan Bethan Gwanas, *Omlet* gan Nia Medi a *Dyn Pob Un* gan Euron Griffith. Mae pethau wedi newid erbyn hyn, diolch byth. Ro'n i'n awyddus i sgwennu'r math o nofel yr ydw i'n mwynhau ei ddarllen yn enwedig ar fy ngwyliau, wrth y pwll neu ar y traeth.



Pan ges i wahoddiad sawl blwyddyn yn ôl bellach gan Wasg Gwynedd i sgwennu nofel, doedd 'na ddim pwysau na dim disgwyliadau. Sgwennu i 'mhlesio fy hun ro'n i, a dwi'n meddwl fod hynny'n dal yn wir heddiw. Dwi'n ymwybodol na wnaiff fy nofelau i byth ennill unrhyw wobrau llenyddol, ond dydi hynny'n poeni dim arna' i. Os ydi'r sawl sydd wedi darllen un o fy nofelau wedi cael mwynhad a phleser, mae hynny'n fwy na digon i mi. Fel y dywedodd Bethan Gwanas: 'Dydi pob awdur ddim yn anelu am Lyfr y Flwyddyn, a dydi pawb ddim isio darllen Llyfr y Flwyddyn chwaith!' (Gwanas 2017).

Adrodd stori

Yr hyn rydw i'n drio ei sgwennu ydi stori dda sy'n cydio yn nychymyg y darllenydd ac yn dal eu diddordeb efo cymeriadau difyr. Daniel Owen ddywedodd, 'Nid i'r doeth a'r deallus yr ysgrifennais, ond i'r dyn cyffredin,' (1885: t. vi) a dyna dwi'n drio ei wneud. (Nid fy mod i'n fy nghymharu fy hun â Daniel Owen o bell ffordd!)

Os ydi unrhyw 'sgwennwr yn dechrau trwy feddwl: 'Dyma dwi'n mynd i "ddweud"', waeth iddo fo, neu hi, roi'r ffidl yn y to a mynd yn bostmon. Y stori sydd yn bwysig, stori gredadwy gyda dechrau, canol a diwedd; a chymeriadau, yr ydych yn malio amdanynt. Is-destun ddylai 'neges' fod wastad, nid rhywbeth bwriadol, ymwybodol.

Meic Povey biau'r geiriau hyn, a chytunaf gant y cant. Fydda' i byth yn meddwl, reit ta, dwi am sgwennu am y thema peth a pheth. Yn hytrach, mi ddaw 'na ryw syniad i fy mhen; beth petai? Neu beth tasai hyn a hyn yn digwydd? Efo *Lluch yn yr Haul* (2012), fy nofel gyntaf, dyma feddwl beth petai 'na hogyn o Sir Fôn a oedd wedi gwneud ei Wasanaeth Milwrol yn Cyprus wedi cyfarfod â Groeges ac wedi syrthio mewn cariad â hi? Yn *Milionêrs* (2014), beth petai teulu cyffredin yn ennill 9.1 miliwn ar y loteri? Yn y nofel *Cwcu* (2017), beth petai dwy hanner chwaer yn cyfarfod am y tro cyntaf yn angladd eu tad, ac yn dod yn rhan o fywydau ei gilydd? Yn *Cicio'r Bwced* (2019), beth petai gweddwydd sydd wedi byw dan gysgod a bawd ei

gŵr yn cael ail gyfle a'i gollwng yn rhydd i fwynhau bywyd am y tro cyntaf? Ac yn *Pum Diwrnod a Phriodas* (2021), beth petai yna deulu o Gymru yn mynd draw i Sorrento ar gyfer priodas? Mae pobl, a pherthynas pobl â'i gilydd, wedi bod o ddiddordeb mawr imi erioed. Does 'na ddim stori os nad oes rhywbeth drwg yn digwydd, neu ryw fath o wrthdaro. Mae pob nofel hefyd yn ymdrin â rhyw fath o newid. Mae rhywbeth yn digwydd, a gall hwnnw fod yn ddigwyddiad bach neu fawr. Rhyw ddigwyddiad sy'n newid y sefyllfa yn y nofel. Er enghraifft, yn *Pum Diwrnod a Phriodas*, mae Carys yn cael andros o sioc pan sylweddola pwy ydi tad y briodferch, sef ei hen gariad!

Cymeriadau

Ar ôl imi sgwennu fy nofel gyntaf, *Llwch yn yr Haul*, roedd rhai pobl yn ceisio dyfalu ar bwy ro'n i wedi seilio'r cymeriadau. Wrth gwrs, do'n i ddim wedi seilio'r un cymeriad ar unrhyw berson go iawn. Yn hytrach, yr hyn ro'n i wedi ei wneud oedd cymryd ambell elfen neu nodwedd o sawl person ro'n i wedi'u cyfarfod neu yn eu hadnabod ac yna gyfuno'r cyfan i greu cymeriad. Fel creu cacen mewn ffordd; defnyddio gwahanol nodweddion o bobl go iawn i greu person dychmygol. Dwi'n siŵr fod yna elfen fach ohono' i ym mhob cymeriad hefyd, rhai yn fwy na'i gilydd! Mae sawl un wedi nodi fod yna gymeriadau benywaidd cryf yn fy nofelau, a dwi'n ymddiheuro dim am hynny. Mae angen rhagor o nofelau efo benywod yn brif gymeriadau.

Lleoli

Mae lleoliadau yn bwysig iawn yn fy nofelau. Un cyswllt cyffredin ynddyn nhw hyd yma ydi'r elfen dramor sy'n perthyn iddyn nhw. Yn *Llwch yn yr Haul*, awn i Cyprus yng nghwmni teulu'r Morrisiaid. Yn *Millionêrs*, cawn fynd i Mauritius ac i ynysoedd y Cayman. Awn i Mallorca yn Cwccw, Gran Canaria yn *Cicio'r Bwced* ac i Sorrento yn yr Eidal yn *Pum Diwrnod a Phriodas*. Gan mai diddanu ydi prif nod fy nofelau mae eu lleoli mewn gwlad dramor yn benderfyniad bwriadol gan fod yr elfen honno, gobeithio, yn ychwanegu at y ddihangfa.

Bwrw ati i sgwennu

Mae gan bawb ei ffordd arbennig ei hun o sgwennu. Mae rhai yn cnoi cil am eu cymeriadau a'r stori am fisoedd lawer cyn mentro rhoi pin ar bapur. Eraill yn cynllunio a braslunio pob golygfa'n fanwl cyn cychwyn arni. Eraill wedyn yn sgwennu heb unrhyw fraslun o gwbl gan adael i'r cymeriadau a'r stori ddatblygu fel maen nhw'n mynd yn eu blaenau. Cyn cychwyn sgwennu, mi fydda' i wedi llunio braslun syml o gynnwys y stori fel bod gen i ryw syniad yn fy mhen am gyfeiriad y nofel, a sut y mae'r stori'n gorffen. Ond peidiwch â theimlo ei bod yn rhaid glynu'n gaeth at eich cynllun. Yn aml iawn, wrth sgwennu mae rhywun yn taro ar syniad neu ddatblygiad arall sy'n gwella eich stori. Rhewch gyfle i chi'ch synnu eich hun a gadewch i'r stori fynd i gyfeiriad hollol wahanol. Mi wnes i ddarganfod hynny gyda fy nofel ddiweddar, *Dros fy Mhen a 'Nghlustiau* (2023). Fe newidiodd y stori honno yn eithaf sylweddol o'r braslun gwreiddiol a anfonais i at fy ngolygydd.

Mae agoriad unrhyw nofel yn hanfodol bwysig er mwyn ennyn chwilfrydedd a chydio yn niddordeb y darlennydd o'r cychwyn cyntaf. Does ond rhaid meddwl am agoriad nofel

George Orwell 1984 sy'n enghraifft berffaith (1949: t. 1): 'It was a bright cold day in April, and the clocks were striking thirteen.'

Dyma sut y mae fy nofelau i yn dechrau:

Llwch yn yr Haul

'Na, No wê. Nefar.'

'Paid â bod yn wirion, Phil. Ti'n dŵad a dyna ddiwadd arni.'

'Nag'dw, – ddim hyd yn oed 'sa 'na ddau dwll yn 'y nhin i.' (Samuel 2012: t. 11)

Milionêrs

Fuodd Wendi Anne Jones erioed yn berson lwcus.

Enillodd hi erioed raffl, tombola, lyci dip na *grand prize draw*, heb sôn am gystadleuaeth ar raglen deledu, er ei bod hi wedi cystadlu sawl tro ar y rhaglenni boreol rheiny am wyliau tramor ecsotig neu fotorhôm neu gar go grand. (Samuel 2014: t. 11)

Cwch

'Am hynny, rhoddwn gorff ein brawd, Brian, i'r ddaear. Pridd i'r pridd . . .'

'A twll din y ffycar!' (Samuel 2017: t. 11)

Cicio'r Bwced

Bob bore Sul yn ystod yr oedfa, byddai meddwl Menna'n crwydro. Yn hytrach na phendroni am bethau megis ai *toupée* ynte gwallt go iawn oedd gan y pregethwr ar ei ben, neu lunio rhestr siopa bwyd ar gyfer yr wythnos honno, mi fyddai Menna'n meddwl am wahanol ffyrdd o ladd ei gŵr. (Samuel 2019: t. 7)

Pum Diwrnod a Phriodas

'Cynhebrwng Dyn Byw.'

Dyna roedd ei thad, heddwch i'w lwch, yn arfer ei ddweud am briodas. Wedi byw efo'i mam, Thelma, am yr holl flynyddoedd, ella nad oedd o'n bell o'i le. Ac ar ôl ei phrofiad hithau o'r stad honno, tueddai Carys i gytuno efo fo. (Samuel 2021: t. 7)

Parhau â'r broses

I mi, does 'na ddim byd gwaeth wrth ddarllen nofel na gallu rhagweld beth sy'n mynd i ddigwydd yn y stori. Mae'r un peth yn wir wrth wyllo ffilm. Dwi wrth fy modd efo troeon annisgwyl. Enghraifft wych o stori â thro annisgwyl yn ei chynffon ydi'r stori fer 'Y Gadwyn', *La Parure*, gan Guy de Maupassant. Darllenais y stori pan o'n i yn yr ysgol uwchradd flynyddoedd maith yn ôl bellach ond mae'r diweddglo wedi aros yn y cof hyd heddiw. Darllenwch hi os cewch chi'r cyfle. Dwi'n hoff o fynd â'r darllenwyr ar daith a chyflwyno troeon annisgwyl yn y nofel. Nododd rhywun wrtha' i fod yna o leiaf dri thro annisgwyl yn *Pum Diwrnod a Phriodas*. Drwy gynnwys y troeon yma fy mwriad, gobeithio, ydi cadw diddordeb y darllenydd. Dwi'n ceisio gorffen penodau ar ryw fachyn, eto er mwyn annog y darllenydd i ddarllen ymlaen.

Mae'n rhaid hefyd eich bod chi'n leicio'ch stori. Os nad ydach chi'n hoff o'r stori yna sut y mae disgwyl i'r darllenydd ei leicio hi? Fel y mae Marian Keyes, awdures rydw i'n ei hedmygu'n fawr, yn ei awgrymu, yr unig ddarllenydd y dylech chi feddwl amdano wrth sgwennu ydi chi eich hun:

Don't write for anyone except yourself. Ask yourself: 'Is this the book I'd like to read? Would I be entertained if I picked this up?' (2021)

Ambell dro, mae rhywun yn cael trafferth cyrraedd y pwynt nesaf yn y stori. Rydych chi'n gwybod yn iawn i le rydych chi eisiau mynd, ond cyrraedd y pwynt hwnnw ydi'r broblem. Os digwydd hynny, yna cymrwch frêc, ewch am dro. Gwnewch rywbeth hollol wahanol. Mi fydda' i'n ffeindio bod mynd â'r ci am dro neu roi dillad ar y lein hyd yn oed yn rhyddhau'r dychymyg ac fe ddaw'r ateb o rywle!

Peidiwch â bod ofn newid y stori. Peidiwch â bod ofn chwaith a chael gwared â chymeriad. Wrth sgwennu *Cicio'r Bwced*, cyrrhaeddais bwynt yn y stori lle ro'n i'n methu'n glir â chario yn fy mlaen; doedd rhywbeth ddim cweit yn taro deuddeg. Dyma fi'n sylweddoli ei bod yn rhaid i mi gael gwared â Jan, ffrind Menna'r prif gymeriad. Roedd peryg iddi hawlio ffocws y stori ac nid ei stori hi oedd hi, ond yn hytrach stori Menna. Cefais wared â Jan (darllenwch y nofel i gael gwybod sut), ac fe lifodd y stori yn ei blaen wedyn. Cofiwch nad eich drafft cyntaf fydd y drafft terfynol. Roedd yna wahaniaeth mawr rhwng drafft cyntaf Cwch a'r nofel a gyhoeddwyd. Mae golygydd gwasg yno i'ch helpu, i gynnig awgrymiadau a chynghor gwerthfawr i wella eich nofel. Mae awdur yn mynd mor ynghlwm wrth ei stori a'i gymeriadau mae'n bwysig felly i gael barn a chynghor gwrthrychol. I gael ysbrydoliaeth darllenwch nofelau pobl eraill, ond ffeindiwch eich llais a'ch steil eich hun.

Dwi'n meddwl mai'r peth anoddaf un ynglŷn â sgwennu nofel ydi eistedd i lawr a sgwennu. Does 'na ddim hud na lledrith yn perthyn i'r peth. Yr hyn sydd ei angen ydi disgyblaeth a dyfalbarhad. Ewch amdani. Os oes gennych chi stori i'w dweud, yna sgwennwch hi.

Awdur poblogaidd o Fôn yw **Marlyn Samuel** y mae iddi ddilyniant o ddarllenyddyr brwd. Mae wedi cyhoeddi sawl nofel ers ymddangosiad *Llwch yn yr Haul* yn 2012, a bu iddi addasu'r nofel gyntaf honno yn gyfres ddrama ar gyfer BBC Radio Cymru. Bydd ei nofel ddiweddaraf, *Yr Ail Briodas*, yn cael ei chyhoeddi gan Y Lolfa cyn pen diwedd y flwyddyn hon.

Cyfeiriadau

Gwanas, Bethan. 2017. Llyfr y Flwyddyn [blog]. Ar gael: [Llyfr y Flwyddyn | Bethan Gwanas](#)
Orwell, George. 1949. *1984* (arg. 1962). Harmondsworth: Penguin.

Owen, Daniel. 1885. *Hunangofiant Rhys Lewis, Gweinidog Bethel*. Wrecsam: Hughes a'i Fab.
Samuel, Marlyn. 2012. *Llwch yn yr Haul*. Caernarfon: Gwasg Gwynedd.
Samuel, Marlyn. 2014. *Milionêrs*. Caernarfon: Gwasg y Bwthyn.
Samuel, Marlyn. 2017. *Cwcu*. Caernarfon: Gwasg y Bwthyn.
Samuel, Marlyn. 2019. *Cicio'r Bwced*. Talybont: Y Lolfa.
Samuel, Marlyn. 2021. *Pum Diwrnod a Phriodas*. Talybont: Y Lolfa.
Samuel, Marlyn. 2023. *Dros fy Mhen a 'Nghlustiau*. Talybont: Y Lolfa.
2021. Five things we learned from Marian Keyes' first writing masterclass. *The Irish Examiner*, 12 Ionawr. Ar gael: [Five things we learned from Marian Keyes' first writing masterclass](#)

Cyhoeddiad Mynediad Agored: CC BY-SA 4.0

Mae'r testun hwn wedi'i ryddhau dan y drwydded [Creative Commons BY-SA 4.0](#), sy'n eich caniatáu i'w ail-ddefnyddio a'i newid mewn unrhyw ffordd os ydych yn rhoi cydnabyddiaeth ar ffurf dolen i'r dudalen hon, ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Gweler [testun y drwydded](#) am ragor o fanylion.